PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, YSTADAU SIROL

DYDD LLUN, 13 GORFFENNAF 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorwyr Goodway, Gavin Hill-John, Hopkins, Merry a/ac Huw Thomas |

1 : PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Huw Thomas yn Gadeirydd y cyfarfod.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

4 : CYLCH GORCHWYL

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi ei gylch gorchwyl fel a ganlyn:

*'Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor'.*

5 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL YSTADAU'R SIR

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ystadau'r Sir.

Adolygodd y Pwyllgor 17 o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'w hasesu.

PENDERFYNWYD: Y bydd ymgeiswyr 7729, 7893, 7962, 7964 a 7968 yn cael eu hasesu.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm